



Site Stakeholder Group
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

**COFNODION Y 23^{ain} CYFARFOD O GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE
A GYNHALIWD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A SEFYDLU TRAWSFYNYDD
DDYDD LLUN 1 MEHEFIN 2015 AM 11:00 yb**

Yn bresennol

| | |
|----------------------------|--|
| Mr John Richards | Is-gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle |
| Mr Stuart Fannin | Swyddfa Rheoleiddio Niwclear |
| Ms Laura Baker | Awdurdod Digomisiynu Niwclear |
| Mr Brian Burnett | Awdurdod Digomisiynu Niwclear |
| Mr Martin Moore | Magnox, Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd |
| Mrs Lowri Joyce | Swyddog Cyfathrebu Magnox |
| Ms Michelle Humphreys | Swyddog Cymdeithasol Economaidd Magnox – Cymru |
| Mr Richard Cowell | Magnox Ltd |
| Ms Angharad Rayner | Magnox Ltd |
| Mr Simon Dawson | Magnox Ltd |
| Mr Dave Cabrerra | Magnox Ltd |
| Mr Paul Richardson | Magnox Ltd Cynrychiolydd Prospect |
| Mr Rory Trappe | Magnox Ltd Cynrychiolydd yr Undeb Llafur |
| Mr Raymond Parry | Magnox Ltd Cynrychiolydd Unite |
| Mrs Karin White | Ysgrifenyddiaeth SSG Magnox |
| Cyng Mandy Williams Davies | Cyngor Gwynedd, Diffwys a Maenofferen |
| Cyng Tom Ellis | Cyngor Gwynedd, Trawsfynydd |
| Mr Dafydd Jarrett | NFU Cymru |
| Mr Keith O'Brien | Cyngor Cymuned Trawsfynydd |
| Mr Meredydd Williams | Cyngor Cymuned Maentwrog |
| Mr Richard Foxhall | Pŵer Niwclear Horizon |
| Mr Terry Williams | Seren |
| Mr Idwal Williams | Trawsnewid |
| Mr Paul Wright | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mr Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Dr Iolo Ap Gwynn | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Ms Joanna Wright | Prifysgol Bangor |
| Glyn Roberts | Cymen – Cofnodion |
| Gwynfor Owen | Cymen – Cyfieithu ar y Pryd |

Ymddiheuriadau

| | |
|---------------------|--|
| David Batters | Awdurdod Digomisiynu Niwclear |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol |
| Nia Swann Bowden | Menter Eryri Cyngor Gwynedd |
| Jonathan Jenkin | Awdurdod Digomisiynu Niwclear |
| Gillian Thomas | Awdurdod Digomisiynu Niwclear |
| John Idris Jones | Magnox |
| Sarah Hughes | Cynllunio Brys |
| Cyng. Gareth Thomas | Aelod o Gyngor Gwynedd |
| Andy McAteer | Gorsaf Bŵer Maentwrog Magnox |
| Ifer Gwyn | Cynrychiolydd Parc Awdurdod Cenedlaethol Eryri |

Ar y cyfan, fe wnaeth y siaradwyr ddilyn yr egwyddor na fyddent yn darllen drwy nac yn cyfeirio at yr holl bwyntiau a geir yn eu hadroddiadau, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar faterion penodol ynddynt er mwyn tynnu sylw at bwyntiau o bwysigrwydd a/neu ddiddordeb penodol. Cofnod o'r pwyntiau hynny felly yw'r cofnodion hyn.

Teyrngedau i'r diweddar Gadeirydd, Cyng. Isgoed Williams

Dyweddodd y Cyng. Idwal Williams ei fod, dros yr 8 mlynedd diwethaf, wedi cael llawer iawn o brofiad o weithio gyda'r Cyng. Isgoed Williams. Roedd safle Trawsfynydd mor bwysig iddo o safbwynt cyflogaeth leol ers diwedd yr 1950au ac roedd wastad wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gwaith gwerthfawr ar gael i'r dyfodol.

Yn ei anerchiad, ychwanegodd y Cyng. John Richards fod gan y Grŵp ddyletswydd i barhau â gwaith Isgoed.

Dechreuodd Mr Martin Moore ei adroddiad (item 5) drwy fynegi pa mor falch oedd ef o frwdfrydedd Isgoed, ei ymrwymiad i'w rôl fel Cadeirydd yr SSG a'i gariad dros yr ardal. Chwaraeodd ran amlwg yn y gymuned a bu'n angerddol dros ei ardal gydol ei oes. Bu'n bleser gweithio gydag ef ac roedd ei wybodaeth yn eithriadol. Bydd y Safle, yr SSG a'r ardal gyfan yn dlotach o'i golli.

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb i'r 23^{ain} cyfarfod. Estynnodd ddiolch arbennig i:

Brian Burnett – Awdurdod Digomisiynu Niwclear

Stuart Fannin – Arolygydd Safle ONR Trawsfynydd

Laura Baker – Awdurdod Digomisiynu Niwclear – Rheolwr Rhaglen Trawsfynydd

Cyng. Mandy Williams Davies - aelod o Gyngor Gwynedd dros Ddiffwys a Maenofferen

Keith O'Brien – Cyngor Cymuned Trawsfynydd

Karin White – Ysgrifenyddiaeth newydd SSG

2. Cymeradwyo cofnodion yr 22^{ain} cyfarfod o'r SSG a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2014

2.1 *Meredydd Williams parthed pwynt 3.2.2* – Roedd y Cyng. Caerwyn Roberts wedi enwi Sioned o'r Gyngor Sir fel y cyswllt ar gyfer cael y wybodaeth. **2.2** *John Richards parthed pwyntiau 3.3 a 12.4* – wedi'i nodi fel John Richard Williams mewn camgymeriad.

2.3 Ar ôl cytuno ar y ddau newid derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. Materion yn codi o gofnodion y 22^{ain} cyfarfod o'r SSG a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2014

3.1 *Meredydd Williams parthed pwynt 3.2, 3.2.1, 3.2.2*

A ddaeth unrhyw wybodaeth i law? Gan fod Elfyn Llwyd AS bellach wedi ymddeol, a oes modd cysylltu â'r AS newydd?

3.2 John Richards i wneud ymholiadau.

4. Anerchiad y Cadeirydd Dros Dro

Dyweddodd mai hwn oedd ei drydydd cyfarfod ar hugain. Roedd wedi mynychu cyfarfodydd yn Risley ar 24 Chwefror, ac ym Manceinion ar 20^{fed} Mai pan drafodwyd cyllid ar gyfer safleoedd a chyllid cymdeithasol economaidd. Bydd hyn yn cael sylw gan y cyfarwyddwr safle a'r NDA yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Ar hyn o bryd, mae yna 12 o safleoedd a fydd yn cau cyn 2028. Cyfeiriodd at y gwariant cyffredinol y llynedd gan ddweud y bydd y gwariant i'r dyfodol yn llai.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Dyweddodd Mr Moore y byddai'n cyflwyno crynodeb cyflym o'i adroddiad ysgrifenedig.

Yn ystod y flwyddyn ariannol cyrhaeddwyd targedau'r cynllun gweithredu i gyd ar y safle. Roedd y gwaith o wagio a glanhau Fowt Resin 3 wedi'i wneud, sy'n gam pwysig i gwblhau'r rhaglen gwastraff lefel canolraddol (GLC) gwlyb, ac roedd yr hen wastraffau resin ar y safle i gyd wedi'u hadfer yn barod i'w storio'n derfynol yn y storfa GLC.

Roedd gwaith ar nifer o lifoedd gwastraff peryglus iawn wedi'i gwblhau ac rydym yn parhau i roi sylw i beryglon mawr ar y safle.

Roedd y gwaith asbestos swmp yn y storfeydd diogel wedi'i gwblhau yn unol â'r rhaglen. Rhoddwyd blaenoriaeth i adfer FED o'r fowntiau ar y safle. Buom yn gweithio ar y flaenraglen waith ac mae gennym yn awr ddarlun cliriach o'r gwaith sydd o'n blaenau. Disgwyliwn gwblhau ein hallforion cyntaf o'r fownt slwtsh eleni. Mae'r gyfradd trosglwyddo drymiau i'w storio wedi gwella yn y chwe mis diwethaf.

Rydym yn bwrw ymlaen â samplo'r pyllau ac â'r gwaith o nodweddu o amgylch uniadau adeiladwaith y pyllau a'r draeniau cysylltiedig. Mae'r gwaith samplo wedi ei gwblhau yn ddiweddar, a disgwyliwn gael y canlyniadau ym mis Mehefin 2015.

Mae'r gwaith ar y storfeydd diogel yn parhau ac rydym yn awr yn canolbwyntio ar atgyweirio'r adeiladwaith a chryfhau'r tu mewn a'r tu allan i'r adeilad; mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

Mae cyllid y flwyddyn gyfredol yn llawer is na'r blynyddoedd blaenorol, ond yn ddigonol i gyflawni'r rhaglen waith hanfodol. Mae'r cyllid sydd ar gael yn achosi cryn her ac rydym yn gweithio ar y rhaglen i sicrhau ein bod yn darparu rhaglen fforddiadwy. Mae angen inni dynnu cyllid oddi ar feysydd nad ydynt yn hanfodol. Bydd nifer y bobl sy'n gweithio ar y safle yn lleihau'n barhaus wrth i'r llwyth gwaith gael ei gwblhau ac nid yw hynny'n annisgwyl. Nid yw colli swyddi yn y 12 safle gan gynnwys Trawsfynydd a Wylfa yn annisgwyl, mae'r cwmni'n gweithio gyda'r gweithlu i edrych ar y sgiliau sydd eu hangen, mae'r gweithlu yn broffesiynol iawn, nid oes dim syndod mawr gan ei fod yn rhywbeth oedd i'w ddisgwyl. O safbwynt diogelwch, cafwyd rhai anafiadau ar y safle, gan roi diwedd ar y record ardderchog flaenorol. Roedd yr anafiadau'n cynnwys ffêr boenus a rhywun yn cau ei fawd yng ngholfach drws.

5.1 *Meredydd Williams:* Pa wybodaeth ddaeth o'r adroddiad ar gyflwr adweithyddion, yn dilyn y ffugwaith a wnaed yng Nghaerdybi?

Martin Moore: Cafwyd llawer iawn o wybodaeth o'r arolwg, a chafodd groeso mawr gan y Pwyllgor Diogelwch Niwclear. Roedd y wybodaeth yn cefnogi'r tybiaethau allweddol a wnaed yn yr achos diogelwch a chaiff arolwg mwy manwl ei wneud yn Storfa Ddiogel 1.

5.2 *Dafydd Jarrett:* Pa effaith gaiff y gostyngiad mewn cyllid, h.y. a fydd y cyllid i'r dyfodol yn ddigonol i ddelio â'r problemau amgylcheddol yn y pyllau gyda samplau'n cael eu cymryd o'r creiddiau os yw'r cyllid yn caniatáu, byddai'n ddiddorol gwybod beth ellir ei wneud?

Martin Moore: Byddwn yn gweithredu mewn modd strwythurol i ddelio â'r hyn a ganfyddwn, byddwn yn llunio cynnig o'r fath fel y gellir cael cyllid gan PBO.

5.3 *Dafydd Jarrett:* Os dewch ar draws wastraff, a fyddwch yn delio ag o ar y safle?

Martin Moore: Mae'n dibynnu ar y math y deugn ar ei draws a beth bynnag yw'r ffordd orau sydd ar gael – gyda'r Dechneg Orau sydd ar Gael a gan ddilyn egwyddorion ALARP. Mae'r technegwyr gorau posibl gennym i fwrw'r gwaith ymlaen. S Fannin: Yn ansicr sut fydd pethau'n mynd nes inni gael y canlyniadau'n ôl.

Holodd *Dafydd Jarrett* beth yw maint troed y pyllau?

Dywedodd *Dave Cabrera* fod yna saith ardal ddraeniau gyda saith côn wedi cael eu cludo oddi ar y safle. Bydd y gwaith o greiddio'r creigwely yn dechrau yn y misoedd nesaf.

Martin Moore: Cafwyd trafodaethau ar beth yw ALARP a pheryglon mawr yn fflyd Magnox, rydym yn gweithio gyda'r cyrff rheoleiddio. Ar y maes hwn y dylem fod yn canolbwyntio'r gwaith.

5.4 *Idwal Williams:* O safbwynt FED, roedd yn falch bod 2019 yn ddyddiad realistig a gobeithiai y byddai gwaith sifft yn parhau. Gyda disgwyl i'r slwtsh cyntaf gael ei allforio eleni, gofynnodd i Mr Moore pryd oedd e'n meddwl y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau.

Martin Moore: Byddai'r gwaith yn cymryd tua 18 mis o fis Medi / Hydref.

5.5 *Tom Ellis:* Mae yna lawer o asbestos yn y waliau, mae'n awr yn 60 oed ac yn dirywio. A allwch eu cynnal a'u cadw ynteu a fyddai'n well eu dymchwel?

Martin Moore: Mae'r rhwystr tywydd allanol yn hanfodol i sicrhau'r hyn sy'n amgylchedd diogel, fel bod yr hyn sydd y tu mewn yn aros y tu mewn, a bod yr hyn sy'n aros y tu allan yn aros y tu allan – byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

5.6 *Tom Ellis:* O 2017 ymlaen pwy fydd yn gyfrifol am fonitro?

Martin Moore: bydd y gwaith FED yn parhau hyd at 2019 ac ar ôl i bopeth gael ei gwblhau bydd yna o hyd raddau o bresenoldeb diogelwch a gwarchodaeth. Bydd y Swyddogaeth Reoli Ganolog yn rhoi pobl yn ôl ar y safle os oes raid. Rydym yn disgwyl, drwy weithio gyda Wylfa, y gallwn edrych ar rannu rhai rolau, er enghraifft, drwy gael un cyfarwyddwr safle ar gyfer y ddau safle o bosibl. Byddwn yn parhau i reoli nid dim ond yn troi cefn.

Stuart Fannin swyddog ONR: Rhaid i Drawsfynydd ddangos, drwy gyfrwng yr Achos Diogelwch, fod y safle'n ddiogel cyn y rhoddir caniatâd i symud i Ofalu a Chynnal a Chadw.

5.7 Dafydd Jarrett: A fyddwch chi'n dod yn ôl ynteu a fydd Wylfa yn cael blaenoriaeth?

Martin Moore: Byddwn yn cydnabod ein hamcanion a'r hyn y mae gofyn inni ei wneud. Rydym yn gweithio fel un cwmni ac yn helpu ein gilydd. Drwy gyfrwng ein contract gyda NDA, byddwn yn sicrhau bod yr holl safleoedd yn ddiogel.

5.8 Dafydd Jarrett: A yw'r storfa'n llawn ac os nad yw'n llawn, a fydd Traws yn cymryd gwastraff o safleoedd eraill?

Martin Moore: Mae yna 2,000 o ddrymiau ar y safle a digon o le yn y storfa ond mater i'r NDA ei ystyried fyddai hyn

Brian Burnett: Y bwriad yn strategaeth NDA ydy mai gwastraff Trawsfynydd fyddai'r unig wastraff ar y safle

5.9 Meredydd Williams: A ellir ei ddefnyddio i storio gwastraff o Wylfa?

Martin Moore: O'r hyn yr oedd e'n ei ddeall, ni fyddai gwastraff yn dod o Wylfa.

5.10 Meredydd Williams: A fydd y gwaith o ostwng yr uchder yn dibynnu ar farn yr NDA?

Brian Burnett: NDA: Edrychodd ar y cynllun presennol a'r gofynion presennol. Bydd y PBO yn edrych ar y cynllun i reoli'r gwaith, bydd yr NDA yn gosod cyllid a phatrwm lefel uchel.

5.11 Meredydd Williams: A fydd datganiad o ddull yn cael ei wneud ar gyfer gostwng yr uchder?

Martin Moore: Gellir gostwng yr uchder mewn sawl ffordd a phenderfyniad y contractwr fydd sut maent yn bwriadu gwneud hynny, a chaiff hynny ei asesu wrth gwrs.

5.12 Meredydd Williams: A yw'r gost o ddelio â'r asbestos wedi cael ei hystyried a beth yw'r dyddiad disgwylidig ar gyfer y Storfa ddiogel?

NDA: 2020 – bydd angen i'r gorchudd tywydd gael ei adnewyddu dros amser er hynny.

Stuart Fannin ONR: bydd hyn yn cael ei asesu ac yn cael sylw drwy achos diogelwch.

5.13 Meredydd Williams: Beth am y gost?

Martin Moore: Mae'r gost yn anferthol h.y. £100 miliwn - £150 miliwn. Caiff yr holl wybodaeth ei defnyddio i ystyried yr ateb mwyaf cost-effeithiol.

5.14 Tom Ellis: Gan gyfeirio at ddogfen gynllunio 2003 dywedodd na fyddai dim gwastraff yn dod i mewn i Drawsfynydd ac nid oedd storio ar y safle ond yn cael ei ganiatáu nes dod o hyd i leoliad arall yn y DU.

Dywedodd *Dafydd Jarrett* hefyd fod y storfa ddiogel yn llawer rhy fawr i'r pwrpas.

John Richards: atgoffodd bawb y byddai'r storfa yn llawn erbyn diwedd ei hoes.

6. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghori ar Gynllunio ar gyfer Argyfwng

6.1 Simon Dawson: Ar 27^{ain} Mawrth 2015 cafodd Trawsfynydd gadarnhad y gallai ei gerbydau a'i offer arolygu Oddi ar y safle gael eu dileu o'r Cynllun Argyfwng yn dilyn gwerthusiad gan ONR. Byddai hyn yn golygu na fyddai tabledi iödin yn cael eu dosbarthu mwyach. Mae'r cwmni'n dal i orfod edrych ar ôl y safle a'r amgylchedd, ond gan fod y peryglon ar y safle yn llai, mae'r ymateb hefyd yn llai.

6.2 Tom Ellis: Gofynnodd sut fyddai hyn yn effeithio ar y gymuned leol?

6.3 Martin Moore: Mae Trawsfynydd yn dal i orfod gwneud ei orau i ddiogelu'r Cyhoedd, yr Amgylchedd a'i bobl ei hun, a'r safle ac nid oes dim wedi newid i'r perwyl hwnnw. Ymateb cymesur a geir yn awr, ond byddwn yn dal i weithio gyda'r Gwasanaethau Brys – mae'n golygu newidiadau mewn rhai senarios – mae'r bygythiad i'r cyhoedd yn llawer is.

7. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Stuart Fannin: Cyflwynodd ei hun fel yr Arolygydd Safle presennol yn Bradwell ac mae'n cadw golwg ar bethau yn Nhrawsfynydd – mae yna lefelau blaenoriaeth a themâu cyffredin. Rhwng nawr a mis Awst mae Magnox yn llunio blaenragen ddiogomisiynu ar gyfer y 12 safle yn y fflyd er mwyn mynd â nhw i'r sefyllfa gofal a chynnal. Rhoddir cyllid i'r lefel ddiogelwch briodol, a gan ddysgu gwersi oddi wrth Bradwell, Berkeley a Thrawsfynydd i'w bwrw ymlaen. Bydd yna gyfleoedd i wella ar y diogelwch a'r gost yn amodol ar gymeradwyaeth yr ONR.

Mae angen i'r galluoedd sefydliadol fod ar y lefel iawn gyda'r lefel iawn o adnoddau a gweithwyr ym mhob safle ac mae'r peryglon ar y safle yn llawer is. Mae'n rhaid parhau i wneud cynlluniau cadarn. O ran ad-drefnu a chyflogaeth, caiff hyn ei adolygu'n barhaus gyda chyfarwyddwr y safle nes i'r safle fynd i'r sefyllfa gofal a chynnal.

Mae'r trefniadau brys a'r penderfyniadau rheoleiddio ar gael yn yr adroddiadau rheoleiddio (ar gael ar wefan ONR). Dilynydd meini prawf REPPiR i sefydlu'r trefniadau brys newydd. Caiff dogfennau'r safle eu hadolygu'n fuan, i sicrhau bod y trefniadau brys cadarn yn parhau ar y safle.

7.1 *Meredydd Williams:* A fydd yr adroddiad ar gynllunio ar gyfer risg ar gael erbyn y cyfarfod nesaf?
Stuart Fannin: Bydd yr adroddiad ar gael ar y wefan.

Martin Moore: Mae angen mynd drwy nifer o gamau cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi – drwy'r pwyllgor diogelwch niwclear, ONR, ac adran Diogelwch ac Ansawdd y safle, bydd Angharad Rayner yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.

Angharad Rayner: mae'r gwaith monitro oddi ar y safle yn parhau.

7.2 *Tom Ellis:* Faint o bobl fydd ar y safle ac a yw'r lefelau'n ddigonol?
Martin Moore: Rydym yn edrych ar faterion allweddol ac adroddiadau blaenorol i gyrraedd at y materion.

7.3 *Stuart Fannin:* Mae ONR yn edrych ar ddiogwyddiadau, rhaglenni ayb dros gyfnod eithaf maith. Mae gan Magnox drefniadau cadarn. Cynhaliwyd yr Adolygiad Blynyddol o Ddiogelwch a'r Amgylchedd (AROSE) ddwy wythnos yn ôl, mae'r safonau a'r disgwyliadau wedi syrthio ychydig dros y blynyddoedd diwethaf. Angen dilyn y datblygiadau diweddaraf a sicrhau bod y trefniadau'n dal i gael eu gweithredu.

7.4 *Martin Moore:* Dylem fod yn archwilio ein hunain ac nid dibynnu ar arolygwyr, rhannu gwybodaeth a gweithio'n agored gyda'r ONR.

7.5 *Mr Paul Richardson:* A yw'r ONR yn cefnogi lleihau'r lefelau staff, ac a yw'r amseru'n iawn?
Stuart Fannin: Pan ydym yn ystyried a yw'n ddiogel ac yn saff, nid ydym wedi gweld pryder gormodol. Mae'r rhyngweithio'n mynd rhagddo er mis Medi ac ni welwyd bod y llinell sylfaen yn cael ei herio - byddaf yn cadw golwg ar hynny yn ystod y sefyllfa Gofal a Chynnal. Mae'n bwysig canfod i'r dyfodol beth yw'r rhaglen ar gyfer y safleoedd a'r gydymffurfiaeth yn erbyn amodau'r safle. Gan edrych ar Drwydded Safle 36, fod gan y safleoedd adnoddau digonol a bod y gweithwyr wedi cymhwyso'n briodol ac yn brofiadol (SQEP'D).

Mr Paul Richardson: Yn bryderus braidd bod yr ONR yn awr yn edrych ar LC 36, oni ddylid bod wedi gwneud hyn i ddechrau?

Stuart Fannin: Mae'r ONR yn ymwybodol bod angen i lefelau'r adnoddau gydymffurfio â'r gallu ac LC 36, rydym yn gweithio'n agos i fonitro hyn hyd at y sefyllfa gofal a chynnal.

7.6 *Martin Moore:* Ar gyfer y trefniadau newydd, rhannwyd y lefelau staff newydd gyda'r ONR cyn cyhoeddi'r gostyngiad yn nifer y contractau fis diwethaf. Gallwn ddefnyddio adnoddau canolog os oes angen ail-osod y niferoedd – edrych ar hynt y gwaith ac ail-osod y rolau llinell sylfaen – bod yn ymatebol – mae cael pethau'n iawn er ein lles ninnau. Byddwn yn parhau i fonitro ac os na fydd pethau'n gweithio yna byddwn yn ailedrych ar bethau.

John Richards: Rydym wedi gofyn y cwestiynau hyn cyn y cyfarfod. Bydd y telerau diswyddo yn edrych ar ryddhau bob yn un.

7.7 *Paul Richardson:* Cytunai fod proses Magnox yn dda ac yn deg ond y pryder yw bod lefelau staff yn gostwng pan fod ansicrwydd i'w gael o hyd. ~ Gan gyhoeddi bod 1,600 o bobl yn colli eu gwaith ar draws y cwmni, roedd yn bryderus ynglŷn â'r anwybod a'r angen i'r adnoddau fod wedi cymhwyso'n briodol ac yn brofiadol ar gyfer e.e. Gwaith ar y Pyllau, Brokks a Brasnaddu.

7.8 *Meredydd Williams:* Cyfeiriodd ef hefyd at yr anwybod.

7.9 *Martin Moore:* Pan mae gennym bethau sy'n anwybod, caiff y rhain eu bwydo i'r 'tybiaethau', a gallwn wneud newidiadau wrth inni fwrw ymlaen.

8. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd Paul Wright yn bresennol ar ran Richard Clark a oedd wedi ymddiheuro gan ei fod i ffwrdd ar fusnes. Roedd Paul, fel yr Arweinydd Gweithrediadau ar gyfer Traws a Wylfa a Richard Clarke fel Rheolwr Niwclear Safleoedd wedi bod ar y safle bum gwaith a hefyd wedi edrych ar y toriadau yn y staff a'r effaith bosibl ar linell sylfaen y staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r drwydded.

Mae'r safle yn parhau i wneud cynnydd da i waredu gwastraff ymbelydrol. Rydym yn parhau i gysylltu â'r gweithredwr o safbwynt ei drwyddedau gollwng dŵr ac yn cefnogi eu hymdrechion, fel gweithredwr, i ddechrau hunan-fonitro'r gollyngiadau. Rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau rheoli'r gweithredwyr ar gyfer deunydd dymchwel a gwastraff asbestos. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau nac ymchwiliadau.

8.1 *Meredydd Williams:* A yw'r gollyngiadau slwtsh yn mynd i'r llyn, ac a ydych yn bryderus ei fod yn cronni?

Paul Wright: Nid oes gennym reswm i bryderu ac rydym wedi cymryd samplau o'r llyn.

Angharad Rayner: Cadarnhaodd fod gwaith samplo blynyddol yn digwydd yn y llyn ac yr adroddir ar hynny wedyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

9. Adroddiad yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear

Brian Burnett: Cyflwynodd Laura Baker sef Rheolwr Rhaglen Trawsfynydd. Mae CFP yn y cyfnod cydgrynhoi ar hyn o bryd ac yn ystod y 100 diwrnod cyntaf roedd wedi dangos rheolaeth ardderchog dros y safle, gan ddeall ardaloedd a delio â hwy. Mae Harwell a Winfrith bellach wedi eu huno o fewn Magnox, Trawsfynydd a Bradwell yw'r safleoedd arweiniodd i fynd i mewn i'r sefyllfa gofal a chynnal. Ni fydd y gyfres raglenni gwbl ddatblygedig ar gael tan ddiwedd y flwyddyn.

Mae nifer y ffrydiau gwastraff yn cael eu gostwng yn raddol, ond rhaid i'r trawsnewid gael ei reoli'n ofalus. Er bod y cynllun presennol yn rhedeg yn hwyr, drwyddo draw, mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ond bod llawer i'w wneud o hyd.

Y digwyddiad cadwyn gyflenwi yw'r mwyaf yn Ewrop ac mae dros 21% o'i wariant blynyddol gyda Busnesau Bach a Chanolig eu maint, ffigur sy'n cyfateb i £330 miliwn allan o'r cyfanswm blynyddol o £1.7 biliwn.

Mae'r NDA wedi cyhoeddi ei Gynllun Busnes diweddaraf ac mae cyfanswm y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer 2015/16 yn £3.31 biliwn, gyda £2.09 biliwn ohono'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

Siapio'r Dyfodol – mae'r cynllun cymorth i fynd i'r afael ag effaith cyflogaeth yn prinhau yn Nhrawsfynydd a Wylfa wedi bod yn llwyddiannus.

Mae NDA wedi cyhoeddi dogfennau sy'n esbonio'n llawnach y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i newid model y llywodraeth yn Sellafield.

9.1 *Idwal Williams:* Pan fydd Wylfa yn cau dim ond un orsaf fydd yna - a fydd Maentwrog yn dychwelyd dan adain Trawsfynydd?

Brian Burnett: Mae yna lawer iawn o waith ar ôl i'w wneud yn Wylfa. Rhwng 2018 a 2019 byddwn yn cael gwared â'r tanwydd yn Wylfa, a disgwylir y bydd Wylfa yn parhau i edrych ar ôl Maentwrog.

Idwal Williams: beth am Gynllun Gweithredu Magnox (MOP)?

Brian Burnett: Roedd y MOP yn cyflawni'n well na'i dargedau

Idwal Williams: a oes pryderon o hyd?

Brian Burnett: Rydym i lawr i 3,000 o dunelli o danwydd yn genedlaethol ac wedi rheoli'r broblem dros y 3 blynedd diwethaf ond mae wastad yn achosi problemau. Rydym yn hyderus y caiff y MOP ei gyflawni.

10. Diweddariad ar y Cynllun Cymdeithasol Economaidd a'r Cynllun Datblygu Cymdeithasol Economaidd 2015/16

Michelle Humphreys – cyfeiriodd at y dalenni gwybodaeth a ddsbarthwyd. Yn genedlaethol roedd 144 o sefydliadau wedi elwa o'r cynllun yn ystod 2014/15 – cyfanswm o £880,666, gan greu 75 o swyddi newydd. O safbwynt y cymorth i Drawsfynydd, roedd 20 o sefydliadau wedi elwa – cyfanswm o £52,352. Daw cynllun newydd i rym ym mis Awst 2015 am y cyfnod 2015-2018. Caiff uchafswm o £6,000 ar gyfer pob blwyddyn ariannol ei bennu ar lefel safleoedd.

10.1 *Rory Trappe;* Sut mae cyllid Trawsfynydd yn cymharu â Wylfa?

Michelle Humphreys; Cyfeiriodd at y ddalen wybodaeth gan ddweud bod cymorth Wylfa yn £127,281.

10.2 *Rory Trappe:* Awgrymodd nad oedd sefydliadau lleol yn ymwybodol o'r cynllun ac y dylid gwneud mwy i gynyddu'r proffil.

Michelle Humphreys: Rydym yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar hyn a gan fod safle Trawsfynydd yn cau dynodwyd statws 'Blaenoriaeth 1' iddo o safbwynt cyllid.

11. Pleidlais i ethol Cadeirydd yr SSG

Cynigiwyd enw'r Cyng. Keith O' Brien a gofynnodd y Cadeirydd Dros Dro a oedd yn fodlon cymryd swydd y Cadeirydd. Derbyniodd y Cyng. Keith O' Brien.

Gan na chafwyd enwebiadau eraill, nid oedd angen y broses bleidleisio.

12. Unrhyw fater arall

12.1 *Tom Ellis* – dywedodd fod y cofnodion fel arfer yn cofnodi nifer y personél ar y safle. Dywedodd nad oedd y ffigurau'n cael eu rhoi yn ystod y cyfarfod ond dywedodd Mr Martin Moore fod y manylion i'w cael yn ei adroddiadau. Er gwybodaeth i bawb, dyma'r manylion:-

'Bydd nifer y bobl sy'n gweithio ar y safle yn parhau i ostwng wrth i'r cwmpas gwaith gael ei gwblhau. Ar ddiwedd mis Ebrill roeddem wedi cyrraedd pwynt yn y rhaglen lle mae'r oedd y gwaith a isgcontractiwyd ac a wnaed gan tua 90 o bobl wedi cael ei gwblhau, a bydd y safle yn graddol ryddhau'r unigolion hynny yr effeithir arnynt yn ystod gweddill y flwyddyn hon. Yn dilyn y gostyngiadau hyn bydd gan y safle 180 o weithwyr uniongyrchol o hyd, ynghyd â 130 arall o weithwyr cadwyn gyflenwi, ac oddeutu 100 o isgcontractwyr i ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir uchod.'

12.2 *Richard Cowell:* rhoddodd ddiweddariad ar y Prosiect 'Siapio'r Dyfodol' a oedd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Nawr roedd y cyllid wedi dod i ben ac mae'r prosiect wedi cau. Bydd yr unigolion hynny sydd wedi bod yn ymwneud â'r prosiect Siapio'r Dyfodol yn derbyn llythyr yn fuan yn eu cyfeiriad cartref i amlinellu cam nesaf y prosiect.

Diben y llythyr hwn yw gofyn am ganiatâd parhaus i gynnal data personol ar gronfa ddata Siapio'r Dyfodol. Mae'r gronfa ddata hon yn cael ei datblygu gan Fenter Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd

Gogledd Cymru sy'n fforwm sefydledig yn canolbwyntio ar ddod â swyddi a buddsoddiad busnes i Ogledd Cymru.

Y syniad y tu ôl i'r gronfa ddata ydy hyrwyddo doniau, sgiliau a chymwysterau i ddarpar gyflogwyr sy'n datblygu eu busnes yn y rhan hon o'r byd.

12.3 Prosiect 'Wylfa Newydd' - Richard Foxhall Rheolwr Cyfathrebu Rhanddeiliaid

Mr Foxhall: rhoddodd gyflwyniad PowerPoint i ddweud wrth yr aelodau am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf yr SSG. Dywedodd mai'r diweddar Gadeirydd y Cyng. Isgoed Williams oedd wedi ei wahodd i'r SSG a dywedodd ei fod yn fodlon parhau os oedd yr aelodau'n cytuno. Gan fod yr eitem hon y tu allan i brif gyfarfod yr SSG, gwahoddwyd yr aelodau i aros pe dymument.

Rhoddodd Richard drosolwg ar y prosiect, themâu'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar, a dyddiadau allweddol y rhaglen. Wrth gloi, cyfeiriodd at wefan swyddogol Horizon lle'r oedd gwybodaeth bellach i'w chael.

13. Dyddiad ac Amser y cyfarfod nesaf

Fe'i cadarnhawyd ar gyfer 7^{ed} Rhagfyr 2015 am 11:00 a.m.

14. Cloi

Diolchodd y Cadeirydd Dros Dro i bawb am ddod i'r cyfarfod ac am gymryd rhan yn y materion a drafodwyd. Gwahoddodd bawb i gerdded drwodd i'r brif ystafell gynadledda am ginio bwffe.

Daeth y cyfarfod i ben am 1:45